



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw

**Stryd Archer
Troed-y-rhiw
CF48 4JQ**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	215
Disgyblion o oed ysgol statudol	159
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	27
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	20.0%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	17.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	4.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2012
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/05/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	02/10/2023

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw yn ysgol ofalgar a chefnogol sy'n darparu hafan ar gyfer dysgu wrth wraidd y gymuned. Mae ymdeimlad o berthyn ac ysbryd tîm yn treiddio trwy ethos yr ysgol ac yn annog staff a disgyblion i herio eu hunain a chroesawu cyfleoedd i ddatblygu eu haddysgu a'u dysgu ymhellach.

Mae arweinwyr yr ysgol yn sicrhau bod lles disgyblion yn hollbwysig mewn unrhyw benderfyniadau a wnânt. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ffynnu ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu a chyfleoedd i roi cynnig ar fedrau newydd. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Maent yn gwrandao'n astud, yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn gweithio ar dasgau yn ddiwyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu perthnasoedd parchus gyda staff a chyfoedion. Maent yn ystyried barn ei gilydd ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda.

Mae'r tîm arweinyddiaeth cryf iawn, a gefnogir gan lywodraethwyr hynod effeithiol, yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol yn drylwyr. Mae llywodraethwyr yn gweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu eu dealltwriaeth o hunanwerthuso, gan eu galluogi i ddarparu cymorth gwerthfawr i arweinwyr yr ysgol i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn gywir. Mae staff yn datblygu dealltwriaeth ragorol o anghenion disgyblion unigol, ac o ganlyniad, yn eu cynorthwyo'n effeithiol i gyrraedd eu potensial.

Mae'r ysgol wedi creu cwricwlwm eang a chynhwysol, gyda chyfleoedd i ddisgyblion ymdrwytho yn hanes cyfoethog yr ardal leol a Chymru. Mae'r cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymdrwytho mewn gweithgareddau Cymraeg yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a brwdfrydig.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y dosbarth ac wrth ddysgu yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac yn datblygu eu medrau datrys problemau yn dda. Fodd bynnag, pan mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau, nid ydynt bob amser yn datblygu'n ddigonol fel meddylwyr a dysgwyr annibynnol a chreadigol.

Argymhellion

- A1 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau ddatblygu i fod yn feddylwyr a dysgwyr annibynnol a chreadigol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â sut mae grwpiau gwella llywodraethwyr yn cael effaith gadarnhaol ar allu llywodraethwyr i gynorthwyo uwch arweinwyr, a pha mor dda y mae staff yn asesu

dysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif werthusiad

Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn y dosbarth Meithrin gyda medrau mewn datblygiad iaith a mathemategol islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cyflym â'u medrau cymdeithasol, ac maent yn ymglyfarwyddo'n gyflym â gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn ym mhob agwedd ar eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cryf. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, maent yn aml yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn, ac ychydig o ddisgyblion yn rhagori ar ddisgwyliadau.

Megis dechrau datblygu eu medrau mathemategol y mae disgyblion yn y dosbarth Meithrin a'r dosbarth Derbyn. Mae llawer ohonynt yn cyfrif gwrthrychau i 10 â chywirdeb, ac mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio iaith fathemategol syml wrth fesur taldra anifeiliaid tegau â chiwbiau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth o rif. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrif ymlaen mewn camau o 2, 5 a 10. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n hyderus gyda rhifau positif a negatif i ganfod y gwahaniaeth mewn tymheredd rhwng dwy wlad.

Mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau mathemategol i ddatrys problemau'n annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn mesur yn gywir i greu map o lociau anifeiliaid ar gyfer eu sŵ. Mae ychydig o ddisgyblion yn ystyried gwybodaeth ychwanegol i addasu ar gyfer anifeiliaid sydd eisiau llociau ddwywaith y maint. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn mewn meysydd dysgu eraill yn dda. Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn cyfrif mewn 10au i ddylunio marciau ar faes chwarae, ac ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn tynnu llun graffiau llinell yn gywir i gynrychioli nifer y bobl sy'n ymweld â'r sinema trwy gydol y degawdau.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyflym. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn magu hyder wrth ateb cwestiynau a chyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir a hyderus at ystod o ddibenion, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth a rhannu eu barn gadarnhaol am yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr brwdfrydig ac yn siarad am eu hoff awduron yn awyddus. Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth dda o seiniau llythrennau yn gyflym, ac yn defnyddio ciwiau llun i ddatblygu eu medrau darllen cynnar. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau syml yn rhugl ac â

mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn chwilio am wybodaeth yn gyflym trwy lithrddarllen a sganio testunau yn ystod sesiynau darllen dan arweiniad. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o destunau wrth ateb cwestiynau cymhleth, er enghraifft wrth feddwl am awyrgylch testun o'r eirfa.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Ym Mlwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau deall nodweddion ystod o genres, mae brawddegau wedi'u ffurfio'n dda, ac mae atalnodi yn gywir, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n helaeth ac yn aeddfed. Er enghraifft, wrth ysgrifennu storïau ym Mlwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn strwythuro eu hysgrifennu'n dda, gan feddwl yn ofalus am ei ddiben a'i gynulleidfa. Maent yn ystyried eu dewisiadau geirfa ac yn aml yn gwneud gwelliannau i'w hysgrifennu wrth ymateb i adborth.

Mae disgyblion iau yn dangos eu dealltwriaeth o'r Gymraeg trwy ymateb yn briodol i orchmynion syml ac ymuno â chaneuon Cymraeg. Maent yn datblygu ystod o eirfa syml sy'n berthnasol i'w dysgu, gan gynnwys lliwiau a rhifau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ateb cwestiynau syml amdanyn nhw eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn adeiladu ar eu medrau Cymraeg yn hyderus ac yn frwdfrydig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau digidol cryf ac yn adeiladu ar y medrau hyn yn systematig wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, wrth gyflwyno data, mae disgyblion Meithrin yn creu pictogramau â chymorth, mae Blwyddyn 2 yn creu siartiau bar syml, ac erbyn Blwyddyn 5, maent yn defnyddio taenlenni yn llwyddiannus i gyflwyno'u cyllideb ar gyfer trip pêl-droed Cwpan y Byd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio technoleg yn fedrus i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwil a chofnodi rhagorol i gynllunio a chyflwyno ffilm ddigidol am anifail o'u dewis nhw.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau creadigol cryf. Maent yn mynegi eu hunain trwy gelf, cerddoriaeth a dawnys yn hyderus. Yn ystod testun 'Fy Merthyr i, Fy Nghartref i' ('My Merthyr, My Home'), mae disgyblion yn defnyddio ystod o gyfryngau i greu awyrgylch a safbwynt wrth ddarlunio portreadau a thirluniau. Mae medrau corfforol disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn dangos cydsymud da ac ymwybyddiaeth dda o ofod wrth ddringo ar offer yn yr ardal awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn taflu a dal pêl yn fedrus yn y Clwb Pêl-rwyd ar ôl yr ysgol, ac yn dangos technegau diogelwch beicio â gofal wrth ddefnyddio'r beiciau yn ystod sesiynau amser chwarae.

O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio i ddatrys problemau ac yn meddwl yn greadigol am y dulliau y byddant yn eu defnyddio a sut byddant yn cyflwyno'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion iau yn archwilio eu hamgylchedd nac yn datblygu eu medrau datrys problemau a chreadigol yn ddigon aml.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r staff a gyda'u cyfoedion. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r ysgol o

ran ymddygiad. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a chyfeillgar â staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Maent yn trysori ac yn gwerthfawrogi'r staff a'u rolau yn eu bywydau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn aml yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. Maent yn falch o'u cyflawniadau ac yn rhannu eu profiadau dysgu yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwranddo'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n llwyddiannus mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw gwybodaeth ddefnyddiol i gof ac yn adeiladu ar y medrau y maent yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu delweddau yn arddull Romero Britto, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn tyfu fel dysgwyr annibynnol, maent yn chwilio am yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gwblhau tasgau yn hawdd ac yn dod o hyd i atebion i broblemau cyn gofyn am gymorth. Fodd bynnag, mae dysgu disgyblion iau wedi'i orgyfarwyddo yn aml, ac ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i archwilio a gwneud camgymeriadau i ddyfnhau eu dysgu.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth a gânt gan athrawon yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn hunanasesu eu gwaith yn fedrus. Maent yn defnyddio meini prawf llwyddiant i werthuso eu cyflawniadau a'u meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn dewis geirfa addas i greu ing a pharchedig ofn wrth ailysgrifennu paragraff ar gyfer eu storïau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn foesegol ymwybodol ac yn mwynhau cyfleoedd i helpu pobl eraill mewn angen trwy waith elusennol a chyfrannu at y banc bwyd lleol ar gyfer y Cynhaeaf. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o drin pobl eraill yn deg. Er enghraifft, yn ystod amseroedd chwarae, mae disgyblion yn mynd ati i gynnwys disgyblion eraill sydd efallai ar eu pen eu hunain, ac mae ychydig o ddisgyblion yn eu cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn effeithiol. Mae disgyblion mewn rolau arwain yn creu cynlluniau gweithredu clir yn gysylltiedig â'u rolau ac yn gwybod bod eu cyfraniadau at wneud penderfyniadau a rhoi newid ar waith yn cael eu gwerthfawrogi gan arweinwyr yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn falch o'u heffaith ar ddefnyddio'r Gymraeg ar y maes chwarae.

Mae disgyblion yn dysgu sut i fod yn iach a gwneud dewisiadau iach. Maent yn deall sut mae diet, gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl yn effeithio ar ansawdd eu bywyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn egnïol yn ystod amseroedd egwyl ac yn ystod gwersi trwy reidio beic, sgipio a chwarae gemau pêl. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r ysgol yn ei roi iddynt gynnal lles, perthnasoedd a datblygiad personol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr yr ysgol wedi gweithio'n effeithiol gyda staff, disgyblion a llywodraethwyr i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer eu cwricwlwm i hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hunangymhellol. Mae'r cwricwlwm dilynol yn ennyn pob un o'r dysgwyr yn llwyddiannus ac yn darparu her a chymorth effeithiol. Yn y rhan fwyaf o wersi, caiff disgyblion eu hannog i gael eu cynnwys yn weithredol a chymryd cyfrifoldeb am eu taith ddysgu.

Mae staff wedi datblygu ystod o destunau difyr yn seiliedig ar ymholi, sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn ennyn disgyblion trwy roi profiad cyffrous iddynt ar ddechrau pob testun fel bachyn ar gyfer eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn blasu gwahanol fwydydd fel rhan o'u testun ar Y Mil Noswaith (Arabian Nights). Mae staff a gwirfoddolwyr yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol trwy weithgareddau cynlluniedig a sesiynau arloesol sy'n herio disgyblion i ddysgu a chymhwyso medrau newydd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gyda ffotograffydd i ddatblygu eu medrau ffotograffiaeth a chreadigol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu ac atgyfnerthu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol trwy gyd-destunau go iawn a dychmygus. Er enghraifft, yn ystod yr wythnos cyllid ysgol gyfan, mae athrawon yn cynllunio i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o arian wrth drefnu cyllideb wythnosol ac yn creu taenlenni i olrhain gwariant aelwyd. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn ymarfer mesur â chywirdeb ac yn dod o hyd i'r gwahaniaeth rhwng amcangyfrif a'r mesuriad gwirioneddol, fel rhan o weithgareddau datrys problemau i adeiladu pont â ffyn yn y parc.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dilys i ddathlu hanes cyfoethog yr ardal leol. Er enghraifft, maent yn ymweld â Chastell Cyfarthfa i ddyfnhau eu gwerthfawrogiad a'u cysylltiadau â'u bro. Mae prosiectau ysgol gyfan ar Gymru yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion a'r gymuned ehangach weithio gyda'i gilydd, gan ddatblygu dealltwriaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae athrawon yn grymuso 'Y Criw Cymraeg' i fynd ati i hyrwyddo ethos Cymreig cryf ac yn cynllunio profiadau ysgol gyfan i bob un o'r disgyblion ddatblygu ymdeimlad o falchder yn eu treftadaeth Gymreig. Mae staff yn dechrau hyrwyddo'r Gymraeg yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn llwyddiannus. Yn yr achosion gorau, caiff y rhan fwyaf o athrawon effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion i siarad Cymraeg.

Mae bron pob un o'r athrawon yn cynllunio ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd cadw'n heini a dewis bwydydd iach. Mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall pwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio dyfeisiau ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u gwybodaeth i greu canllaw ar ddefnyddio dyfeisiau digidol ar gyfryngau cymdeithasol yn ddiogel ar gyfer disgyblion iau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth gadarn am y cwricwlwm ac yn rhoi esboniadau clir i helpu disgyblion i ddeall y bwriad dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn modelu ymagweddau da at ddysgu ac yn darparu adnoddau defnyddiol i gynorthwyo disgyblion. At ei gilydd, mae cyflymdra da i ddysgu, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Mae bron pob un o'r athrawon yn ailedrych ar ddysgu blaenorol i roi ffocws i feddwl disgyblion, ac yn defnyddio holi yn effeithiol i herio disgyblion a gwirio dealltwriaeth.

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion. Maent yn dangos gofal, hiwmor a charedigrwydd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n gyfforddus wrth ofyn am gymorth. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad pob un o'r disgyblion, ac yn creu amgylchedd dysgu sy'n annog parodrwydd disgyblion i ddysgu. Mae staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion unigol, ac yn ymateb yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion i archwilio a datblygu eu medrau datrys

problemau a chreadigrwydd yn dda. Fodd bynnag, caiff disgyblion iau gyfleoedd cyfyngedig i archwilio'u hamgylchedd a datblygu eu medrau datrys problemau a chreadigol yn annibynnol.

Mae athrawon yn defnyddio asesiadau hynod effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth dda o gynnydd disgyblion unigol mewn gwersi a thros gyfnod. Mae athrawon yn trafod deilliannau'r asesiadau hyn ac yn cynllunio yn unol â hynny i sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae athrawon yn asesu ysgrifennu yn ddiwyd ar ddechrau genre newydd, sy'n galluogi disgyblion hŷn i ddeall pa mor dda y maent wedi cyflawni'r arddull ysgrifennu a'u camau nesaf mewn dysgu. Mae athrawon yn myfyrio'n feddylgar ar yr hyn y gall disgyblion ei wneud ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gwersi yn y dyfodol a nodi disgyblion sydd angen cymorth yn gyflym.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw yn gymuned hynod gynhwysol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cryf â disgyblion, rhieni a gofalwyr. Maent yn darparu cyfle gwerthfawr i ddisgyblion elwa ar gymorth targedig, yn ogystal â chyngor, cymorth ac arweiniad ar gyfer rhieni a gofalwyr, pan fydd angen. Mae pob un o'r staff yn ymateb yn feddylgar i anghenion emosiynol disgyblion, gan eu galluogi i ddatblygu synnwyr o berthyn a gwydnwch. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn galluogi disgyblion i ymgynefino'n dda yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n fawr at eu lles.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae staff yn cydweithio i adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol trwy asesu a monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae staff yn nodi bylchau yn nysgu disgyblion yn hynod effeithiol, ac eir i'r afael ag unrhyw fylchau trwy gyflwyno ymyriadau pwrpasol a thargedig. Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso effaith ymyriadau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n bwrpasol ac yn diwallu anghenion dysgwyr. Mae'r arfer gref hon yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ymagwedd arloesol yr ysgol at ddarparu cwnsela gwerthfawr ar gyfer cymorth emosiynol a chymorth â lles ar gyfer disgyblion yn darparu gofod diogel i ddisgyblion rannu eu gofidiau gydag oedolyn, os oes angen.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrion ar werthoedd, a chredoau pobl eraill. Maent yn cynllunio cyfleoedd ystyriol i ddisgyblion ddysgu am wahanol wledydd a diwylliannau. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gyfleoedd i rannu eu diwylliannau a'u traddodiadau eu hunain. Mae'r ysgol yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn dda, gan ddathlu trwy waith celf a'r amgylchedd bywiog. Mae pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn elwa ar dripiâu ac ymwelwyr â'r ysgol, sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach yn llwyddiannus.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau pontio cyffrous i helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn bwyta'u cinio gyda'r disgyblion hŷn i ymgyswrtio ag ardaloedd anghyfarwydd o'r ysgol. Yn ystod tymor yr haf, mae pob un o'r disgyblion yn treulio amser yn eu dosbarth newydd. Mae athrawon yn cysylltu'n agos â'r ysgol uwchradd leol i sicrhau cyfnod pontio esmwyth ar gyfer disgyblion hŷn.

Mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn dda. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd fel parch, empathi a thosturi ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu a myfyrio ar eu gwerthoedd a'u hawliau eu hunain.

Mae staff yn darparu ystod o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ymarfer medrau a datblygu gwaith tîm. Er enghraifft, yn y clwb chwaraeon ar ôl yr ysgol ar gyfer disgyblion iau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd eu tro ac yn datblygu eu medrau cydsymud yn dda. Trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu hunanhyder a mynegi eu hunain yn greadigol.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i ddiogelu disgyblion. Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r prosesau sydd ar waith. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan at wrthfwlio yn rhoi dealltwriaeth dda i staff, disgyblion a rhieni o sut i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr. Mae arweinwyr yr ysgol yn cyfleu pwysigrwydd presenoldeb da i rieni yn rheolaidd, ac mae hyn wedi helpu i wella presenoldeb.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod lwyddiannus sy'n ysgogi gwelliant cryf. Mae hi'n angerddol am godi dyheadau disgyblion, gan sicrhau bod ganddynt y medrau a'r ymddygiadau dysgu i roi dewisiadau iddynt yn eu bywydau fel oedolyn. Yr hyn sydd wrth wraidd ethos yr ysgol yw ymrwymiad i wella ymdeimlad disgyblion o'u hunanwerth a'u gallu i fod yn unigolion cyfrifol a pharchus sy'n cyflawni'n dda. Mae strategaeth lles yr ysgol wedi cael effaith ragorol ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu, a'u mwynhad ohono.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i thîm arweinyddiaeth abl ac o bob un o'r staff. Mae arweinwyr yn modelu ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn llwyddiannus, gan feithrin tîm effeithiol ac ymgysylltiedig o ymarferwyr. Gyda'i gilydd, maent yn creu ymdeimlad cryf o gymuned sy'n canolbwyntio'n graff ar ddatblygu disgyblion medrus a gwybodus mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae datblygu medrau arweinyddiaeth pob un o'r staff wedi bod yn flaenoriaeth i'r ysgol, ac o ganlyniad, mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn gryf. Mae arweinwyr yn cynllunio'n ofalus i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad gwaith yr ysgol, fel darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY a chefnogi staff â'u dyheadau gyrfa.

Mae arweinwyr yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys datblygu cwricwlwm yr ysgol i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, a datblygu ymagwedd ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Maent yn ystyried datblygiadau newydd posibl yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch y cyfeiriad y bydd yr ysgol yn ei gymryd. Y pennaeth fu'r sbardun y tu ôl i ddatblygu'r cwricwlwm a cheir rhesymeg glir iawn ar gyfer ymagwedd gyfannol yr ysgol at gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn wedi cael ei greu ar y cyd yn effeithiol â chymuned yr ysgol gyfan, gan gynnwys disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod effeithiol. Mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gydwybodol i sicrhau bod diwylliant diogelu cadarn a threfniadau priodol i ddisgyblion fwya ac yfed yn iach. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn monitro cynnydd yr ysgol yn

erbyn ei blaenoriaethau gwella yn rheolaidd, gan ddefnyddio adroddiadau'r pennaeth a'u tystiolaeth uniongyrchol eu hunain o ddysgu ac addysgu yn effeithiol.

I gynorthwyo llywodraethwyr yn eu gwaith fel ffrindiau beirniadol, mae'r pennaeth wedi datblygu 'grŵp gwella llywodraethwyr'. Mae hyn wedi cael effaith ragorol ar alluoedd llywodraethwyr Troed-y-rhiw i gefnogi a herio arweinwyr er lles pennaf disgyblion.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn blaenoriaethu gwariant i sicrhau bod anghenion mwyaf dybryd disgyblion yn cael eu diwallu. Maent yn sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol, er enghraifft i fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd ar ôl y pandemig. Mae'r ysgol yn dod o hyd i atebion arloesol i sicrhau ei bod yn cynnal darpariaeth effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio cyllid grant yn effeithiol, fel y grant datblygu disgyblion, a datblygiad proffesiynol hynod effeithiol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro effaith y gwariant yn agos ac yn gwerthuso'r effaith a gaiff ar wella dysgu a lles disgyblion yn gywir. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion sydd wedi'u heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae'r ysgol yn rhoi pwys sylweddol ar degwch a chynhwysiant. Mae'n meithrin perthnasoedd cryf â rhieni, teuluoedd a'r gymuned, ac yn gweithio'n agos gyda nhw i ddeall yr heriau economaidd-gymdeithasol a'r heriau o ran iechyd. Mae'r dirprwy bennaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu ymagweddau effeithiol at leihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol, cefnogi'r gymuned a gwella ymgysylltiad rhieni ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan yr ysgol, ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi fel partneriaid yn addysg eu plant.

Mae arweinwyr yn cynnwys pob un o'r staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion mewn ystod o weithgareddau monitro effeithiol sy'n canolbwyntio ar gynnydd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd eithriadol o dda o ystod eang o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau gwella. Er bod arweinwyr yn gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r asesu yn gywir, ar y cyfan, nid ydynt yn nodi gwelliannau sydd eu hangen i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

Mae diwylliant dysgu proffesiynol cefnogol yr ysgol yn arwain at welliannau mewn meysydd pwysig o ddysgu disgyblion, fel llafaredd, darllen, ysgrifennu a mathemateg. Mae staff yn archwilio ac yn cymhwyso ymagweddau yn seiliedig ar ymchwil at eu harfer mewn 'triadau' yn gynyddol, ac mae diwylliant dysgu myfyriol a chydweithredol yn bodoli.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023